Gofal Plant Ysgolion Gwynedd
23/03/2020 hyd at 03/04/2020

Gwynedd Schools Childcare Provision
23/03/2020 to 03/04/2020

Annwyl Riant / Warchodwr, 22.3.2020

CEFNOGI GWEITHWYR ALLWEDDOL / SUPPORTING KEY WORKERS

Dyma i chi ddiweddariad ar effaith Covid-19 ar Ysgol Uwchradd Tywyn yn dilyn cyfarwyddiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru.
Y canllawiau am bellhau cymdeithasol:
https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-on-social-distancing-and-for-vulnerable-people/guidance-on-social-distancing-for-everyone-in-the-uk-and-protecting-older-people-and-vulnerable-adults

FEL YSGOL, YR YDYM WEDI DEHONGLI YR ARWEINIAD CENEDLAETHOL, AC YN MYND I WEITHREDU FEL A GANLYN O YFORY YMLAEN:
Dylid pwysleisio ac erfyn ar rieni/warcheidwaid sydd yn y categori gweithwyr 'allweddol' y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gofal i'w plant yn eu cartrefi yn hytrach na defnyddio'r ysgol.
Dylid gwneud hynny er mwyn cadw'r niferoedd o blant sydd yn ein hysgolion mor isel â phosib', gan y byddai sefyllfa ble mae pawb sy'n gymwys yn mynychu'n hysgolion yn amlwg yn mynd yn groes i bwrpas cau'r ysgolion yn y lle cyntaf.
Wedi dweud hynny, os nad ydych yn gallu gwneud trefniadau eich hunain ar gyfer gofalu amdanynt gartref, rhaid cyrraedd y meini prawf isod:

- Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n asesu'r sefyllfa er mwyn gweld sut y gallaf gefnogi Gweithwyr Allweddol tra'n parhau i gynnal ysgol sy'n sâff i ddisgyblion ddod iddi.
- Fel y gwyddoch, mae'r canllawiau uchod wedi effeithio ar 4 aelod staff yr ysgol fydd ddim yn y gwaith o heddiw ymlaen.
- Mae nifer o ddisgyblion, teuluoedd a staff ein hysgol wedi arddangos symptomau COVID-19 dros y dyddiau diwethaf.
- Darpariaeth gofal dydd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddisgyblion fydd hwn yn yr ysgol.
- Os ydych yn gweithio yn rhan amser, disgwyliaf i chi gadw eich plentyn adref ar y dyddiau lle 'rydych chi ar gael i fod efo eich plentyn/plant.
- Os ydych yn gweithio o adref , disgwyliaf i chi gadw eich plentyn/plant adref.
- Os ydych chi ddim yn gweithio, disgwyliaf i chi gadw eich plentyn/plant adref.
- Os oes gan eich plentyn gyflwr meddygol e.e. asthma, yna awgrymaf yn gryf eich bod yn dilyn canllawiau ymbellhau'n gymdeithasol a pheidio mynychu'r canolfannau gofal.
- Os oes unrhyw un arall yn eich cartref yn dioddef o gyflwr meddygol , bydd rhaid cadw y plentyn/plant adref.
- Ar hyn o bryd yr ydym yn rhagweld y bydd y gwasanaeth gofal ar gael o 8:00 tan 5:00, dydd Llun i dydd Gwener rhwng 23/3/20 a dydd Gwener 4/4/20, ond gall hyn newid o ddiwrnod i ddiwrnod.
- Bydd y gwasanaeth gofal i ddisgyblion oed statudol yn unig.

DYMA SUT FYDD YR GOFAL YN GWEITHREDU:

Dylid gwneud pob ymdrech i gadw at egwyddorion ymbellhau cymdeithasol yng nghyd-destun ein ysgol dros y dyddiau nesaf, h.y. ble mae'n ymarferol bosib', mae angen osgoi sefyllfaoedd ble mae yna nifer sylweddol o blant ac oedolion yn casglu at ei gilydd mewn un ystafell. e.e bydd pob disgybl yn cael ei gadw ar wahan (dwy fedr o bellter) ac ni fyddant yn cael mynd allan i chwarae gyda'i gilydd.

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd y trefniadau ar ôl 4ydd Ebrill.

Y canllawiau diweddaraf gan y llywodraeth:
https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-maintaining-educational-provision/guidance-for-schools-colleges-and-local-authorities-on-maintaining-educational-provision
It is important to underline that schools, colleges and other educational establishments ***remain safe places for children****. But* ***the fewer children*** *making the journey to school, and* ***the fewer children in educational settings, the lower the risk that the virus can spread and infect vulnerable individuals*** *in wider society.*

Schools *are, therefore, being asked to* ***continue to provide care for a limited number*** *of children - children who are vulnerable* ***and children whose parents are critical to the Covid-19 response and cannot be safely cared for at home.***

Rhestr Gweithwyr Allweddol

Gofal iechyd a chymdeithasol e.e. doctoriaid, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, a staff gofal iechyd a chymdeithasol rheng flaen eraill;
Addysg a gofal plant e.e. meithrinfeydd, staff dysgu/cymorthyddion a gweithwyr cymdeithasol;
Gwasanaethau golau glas e.e. yr heddlu, tân, ambiwlans;
Gweithwyr blaenoriaethol mewn Llywodraeth Leol a Chenedlaethol (mae'r rhain yn cael eu hadnabod gan sefydliadau unigol);
Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill e.e. cynhyrchu, prosesu, gwerthu a danfon bwyd;
Trafnidiaeth e.e. cynnal dulliau teithio ffyrdd a rheilffyrdd a thrafnidiaeth llwytho.

Os nad ydych ar y rhestr yma, yna ni fydd yr ysgol yn gallu darparu gofal ar eich cyfer. Os yw niferoedd yn uchel ac yn cyrraedd lefelau peryglus , yna bydd yr ysgol yn defnyddio eu disgresiwn i flaenoriaethu llefydd.

Diolch a chymrwch bob gofal,

Helen Lewis
Pennaeth

Gwynedd Schools Childcare Provision
23/03/2020 to 03/04/2020

Dear Parent / Guardian 22.3.2020

SUPPORTING KEY WORKERS

Here is an update on the impact of Covid-19 on Ysgol Uwchradd Tywyn following the latest Welsh Government instructions.
Guidelines on social exclusion:
https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-on-social-distancing-and-for-vulnerable-people/guidance-on-social-distancing-for-everyone-in-the-uk-and-protecting-older-people-and-vulnerable-adults

AS A SCHOOL, WE HAVE INTERPRETED THE NATIONAL GUIDANCE, AND WILL IMPLEMENT THE FOLLOWING FROM TOMORROW:
It should be emphasized and urged that parents / guardians who are in the 'key workers' category should make every effort to ensure their children are cared for at home rather than using our schools. This in order to maintain the numbers of children in our schools is as low as possible, as a situation where everyone who is eligible to attend our schools would obviously go against the purpose of closing the schools in the first place.
That said, if you are unable to make your own arrangements for looking after them at home, the criteria below must be met:

• I am currently assessing the situation to see how I can support Key Workers whilst continuing to maintain a safe school for pupils to attend.
• For your information, the above guidelines have affected 4 members of staff who will not be in work today.
• Some pupils, families and staff at our school have exhibited COVID-19 **symptoms** over the past few days.
• This day care provision at the school will cater for a limited number of pupils only.
• If you work part-time, I expect you to keep your child at home on the days when you are available to be with your child / children.
• If you work from home, I expect you to keep your child (ren) at home.
• If you are not working, I expect you to keep your child (ren) at home.
• If your child has a medical condition e.g. asthma, then I strongly suggest that you follow the guidelines of social distancing and not attend the day care centres.
• If anyone else in your home suffers from a medical condition, the child (ren) must be kept at home.
• We currently anticipate that the day care service will be available from 8:00 to 5:00, Monday to Friday between 23/3/20 and Friday 4/4/20, but this may change from day to day.
• The day care service will be for pupils of statutory age only.

THIS IS HOW THE DAY CARE WILL OPERATE
Every effort should be made to adhere to the principles of social distancing in the context of our school over the next few days, i.e where practicable, situations where a large number of children

and adults congregate in one room need to be avoided. For example all pupils will be kept separate (two meter distance) and will not be allowed to play outside together.
We do not know yet what the arrangements will be after 4th April.

The latest guidelines from the Government:
https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-maintaining-educational-provision/guidance-for-schools-colleges-and-local-authorities-on-maintaining-educational-provision
It is important to underline that schools, colleges and other educational establishments ***remain safe places for children****. But* ***the fewer children*** *making the journey to school, and* ***the fewer children in educational settings, the lower the risk that the virus can spread and infect vulnerable individuals*** *in wider society.*

Schools *are, therefore, being asked to* ***continue to provide care for a limited number*** *of children - children who are vulnerable* ***and children whose parents are critical to the Covid-19 response and cannot be safely cared for at home.***

Key Workers List

Health and social care e.g. doctors, nurses, midwives, paramedics, social workers, and other frontline health and social care staff;
Education and childcare e.g. nurseries, teaching staff / assistants and social workers;
Blue light services e.g. police, fire, ambulance;
Priority employees in Local and National Government (these are identified by individual organizations);
Food and other necessary goods e.g. food production, processing, sale and delivery;
Transport e.g. maintaining road and rail travel and freight transport.

If you are not on this list, then the school will not be able to provide care for you. If numbers are high and reach dangerous levels, then the school will use its discretion to prioritize places.

Thank you and please take care,

Helen Lewis
Head teacher.